Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 y.h ar nos Fercher yr 16eg o Hydref 2019

Presennol: *JH Owens (Cad), Avril Hughes, M.T. Smithurst, W. Hughes, R.F. Owen, Christine Davies, Arfon Jones, R.B. Owen, C.G. Topps, Keith Wood, Elwyn Evans, Cyng Peter Rogers.*

Ymddiheuriadau: *Stuart Austin, Cyng Bryan Owen*

1. **Llys Llywelyn**
Mr Arthur Beechy a Mrs Linda Austin o Agoriad yn bresennol i ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cyngor Cymuned ynglyn ag oriau agor y caffi yn Llys Llywelyn sydd bellach ond un diwrnod yr wythnos. Eglurodd Mr Beechy gefndir y sefyllfa bresennol. Dywedodd nad oedd Menter Gymdeithasol Môn yn blaenoriaethu gwneud elw ond yn bennaf yn gweithio er lles y gymuned ac nad oedd y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hawdd. Roedd Menter Mon wedi gallu sicrhau cyllid ac roedd £40,000 wedi ei fuddsoddi yn y safle a werthwyd gan Gyngor Ynys Mon i Menter Mon. Fodd bynnag ni chafwyd ad-daliad o'r £40,000 i Agoriad ond yn hytrach sefydlwyd les o 15 mlynedd am £1 y flwyddyn.
Dywedodd Mr Beechy fod Agoriad wedi cynnig opsiynnau i Menter Mon ond nid oeddent wedi eu derbyn. Cafodd y safle ei farchnata ac fe'i gwerthwyd i unigolyn. Nododd hefyd ei bod yn anodd recriwtio staff ar gyfer y safle ac nad oedd yr amodau masnachol wedi bod yn hawdd. Fodd bynnag nid ydynt yn ystyried cau'r caffi ar hyn o bryd ac maent yn parhau i edrych ar wahanol opsiynnau ar gyfer y dyfodol. MTS yn deud nad oedd y Cyngor Cymuned wedi cael gwybodaeth ynglyn â'r sefyllfa yn Llys Llywelyn a'u bod yn bryderus o ran yr aelodau o staff sydd yn gweithio ar y safle.
Estynnwyd gwahoddiad i Mr Beechy ddychwelyd yn y dyfodol i drafod y mater ymhellach.

2. **Cofnodion**
Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18/09/2019 eu derbyn yn gywir, cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan RFO

3. **Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18/09/2019**
   - 3.1. Mae'r hysbysfwrdd ar gyfer y neuadd yn barod i'w osod – disgwyl i gael gosod y pyst.
   - 3.2. Croesffordd Dothan – Cyng Rogers wedi gwneud ymholiadau ac yn disgwyl ymateb

4. **Ceisiadau Cynllunio**
Minffordd, Dothan, Ynys Môn, LL63 5UT – estyniad i'r adeilad presennol – dim sylwadau.

5. **Cyfrifon – Canlyniad yr archwiliad allanol ar gyfer 2018-2019**
Y cyfrifon wedi eu cymeradwyo gan yr archwilydd allanol. Y canlynol wedi eu nodi yn yr adroddiad o faterion yn codi:
   - Dim cyfeirnod cofnodion wedi ei nodi ar y ffurflen
   - £45 wedi ei dalu yn ormod mewn camgymeriad i CSYM wedi ei nodi fel Dyledwr – angen cywiro ar ffluflen flynyddol 2019-2020

Cymeradwyodd y cyngor y cyfrifon, cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan AJ.

6. **Gohebiaeth**
   - 6.1 Cais gan Mr Leigh Denyer o Gyfoeth Naturiol Cymru i fynychu un o gyfarfodydd y cyngor i drafod y Rhaglen Gandwraeth "Sands for Life" ar dywyn Aberffraw – Clerc i wahodd Mr Denyer i'r cyfarfod nesaf.
   - 6.2 Cylchlythyr Neuadd Glannau Ffraw wedi ei dderbyn.
   - 6.3 Taith o amgylch safle RAF y Fali – gwahoddiad i aelodau'r cyngor ymweld a'r safle 29/11/2019 i gael gweld yr awyrennau newydd a'r datblygiadau diweddaraf. Clerc i rannu ffurflenni cofrestru i'r aelodau. Pawb i gyfarfod ym maes parcio "spotters" am 10 yb ar y diwrnod.

7. **Unrhyw Fater Arall**

7.1 Cafwyd adroddiadau fod sbwriel wedi ei adael rhwng y tai ym Maes Llewelyn a'r cae chwarae. Clerc i ofyn i Gyngor Sir Ynys Môn gysylltu â'r trigolion i ofyn iddynt beidio â gadael sbwriel yn yr ardal.

7.2 CSYM wedi rhoi gwybod i'r Cyngor fod problem gyda giat y cae chwarae – Cadeirydd ac aelodau eraill i ymchwilio.

7.3 Rhaglen artgyweirio yn y pentref, rhan o raglen cynnal a chadw, i ddechrau ym mis Ionawr. Bydd yn cynnwys gosod paneli newydd, insiwleiddio ac ati.

7.4 Erydiad y ffordd tuag at Treiddon – Cyng Rogers am ofyn i Dwr Cymru asesu'r sefyllfa.

7.5 Gor-dyfiant ger Bythynnod yr Efail – Clerc i gysylltu ag Ystad Bodorgan.

7.6 Ymddeoliad y Clerc –Clerc y cyngor, Menna Evans yn ymddiswyddo wedi 10 mlynedd yn y swydd. Dywedodd MTS fod Mrs Evans wedi bod yn wych yn datrys gwahanol faterion dros y blynyddoedd a chytunodd bawb gan ddymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Evans gan y Cadeirydd.

Cadeirydd..... Clerc.....